

ADRODDIAD CYHOEDDUS ABERTAWA

PHIL WOOD
TACHWEDD 2019



culture 21
UCLG Committee







ABERTAW

Ym mhroses anochel a diwrthdro newid byd-eang, un o'r canlynebau mwyaf arwyddocaol fu'r cynnydd mewn symudiadau pobl, o fewn gwledydd a rhyngddynt. Dinasoedd yw'r lleoedd lle gellir profi'r llifoedd hyn yn y ffordd fwyaf byw.

Sut dylai dinasoedd ymateb i hyn? Ei amgyffred yn fygythiad i'r sefyllfa bresennol, yn broblem i'w rheoli neu a ddylent ffugio dihidrwydd? Mae llawer yn gwneud hynny. Ond mae niferoedd cynyddol o ddinasoedd sy'n barod i groesawu cymhlethdod a newid - gan ddysgu rheoli'r heriau a hefyd groesawu'r cyfleoedd, y cysylltiadau a'r asedau newydd posib a gynigir.

Mae Abertawe yn un ddinas o'r fath. Er bod ei hanes fel porthladd a chanolfan gynhyrchu wedi golygu bod Abertawe wedi gweld tipyn o amrywiaeth dynol, ac o ganlyniad ei bod yn gartref i sawl cymuned lleiafrifoedd ethnig hen sefydledig, mae'r ddinas ôl-ddiwydiannol wedi cymryd safiad rhagweithiol at groesawu ymwelwyr, yn enwedig drwy gynnal dwy brifysgol a hefyd drwy fod yn un o Ddinasoedd Noddfa gyntaf y DU.

Ac eto mynegir amrywiaeth dynol mewn llawer mwy o ffyrdd nag ethnigrwydd yn unig. Rydym oll yn byw ein bywydau gydag amryfal alluoedd, hunaniaethau a chysylltiadau, ac nid yw'n dderbyniol mwyach i atal y rhain yn enw cydlyniant cymdeithasol neu effeithlonrwydd economaidd. Cyfrifoldeb gwasanaethau cyhoeddus mewn dinasoedd bellach yw cydnabod pob agwedd ar amrywiaeth ac addasu iddo, ac mae hyn yn cynnwys y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi'r celfyddydau a diwylliant.



ABERTAWWE FEL DINAS BEILOT

Pan ymunodd Abertawe â'r fenter Dinasoedd Peilot, a phan gynhaliodd y gymuned celfyddydau a diwylliant leol ei **humanasesiad cychwynnol**, daeth i'r casgliad bod: "y diffyg amrywiaeth sy'n cael ei adlewyrchu ymysg y rhanddeiliaid cyfranogol yn yr ymarfer humanasesu hwn yn dangos un o wendidau parhaus Abertawe sef diffyg amrywiaeth yn y sector diwylliannol ffurfiol."

Felly, mewn cydweithrediad ag ymgynghorydd y Dinasoedd Peilot, Beatriz Garcia, lluniodd Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Abertawe a rhanddeiliaid eraill **gyfres o fesurau peilot** y byddai'n gweithio arnynt dros y tair blynedd ddilynol. Y pennaf o'r rhain fu ymgais gyd-drefnedig i ehangu ac amrywio cynulleidfaoedd ar gyfer lleoliadau a rhaglenni diwylliannol presennol Cyngor Abertawe, trwy alluogi pobl o gefndiroedd a ffyrdd o fyw mwy amrywiol i chwarae rhan fwy gweithredol wrth ddylunio a chyflwyno rhaglenni. Mae hyn wedi cwmpasu ystod o weithgareddau presennol a newydd:

- **Prosiect Cyfuno** - prosiect sy'n ymdrechu i feithrin perthnasoedd â chyrrff anllywodraethol a grwpiau nad ydynt wedi'u ffurfioli yn y gymuned lle nad oeddent yn bodoli o'r blaen. Drwy'r fath berthnasoedd dwybleidiol, ond yn ddelfrydol drwy ddod â sawl rhanddeiliad ynghyd i'w 'cyfuno', mae etholaethau a chynhyrchwyr diwylliannol newydd yn dod i'r amlwg.
- Yn dilyn hyn, comisiynodd Cyngor Abertawe yr artist Rabab Ghazoul i arwain ymgynghoriadau â phreswylwyr a defnyddwyr Heol San Helen a Sandfields yn 2017 a 2018, a arweiniodd at **gynhyrchu ffilm sef INTERSECTION** - a gafodd ei dangos yn gyhoeddus. Dyma ardal fwyaf amrywiol y ddinas lle ceir busnesau, cartrefi, ysgolion a mannau addoli niferus ochr yn ochr â sefydliadau fel y YMCA, cartref preswyl Swan Gardens i'r henoed Tsieineaidd ac EYST (Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru). Dechreuodd sgwrs ar sut y gellir adfywio'r ardal a'i chynnal mewn modd sensitif heb beryglu'r rhwydwaith cyfoethog o gysylltiadau lleol. Arweiniodd hyn at barti stryd Abertawe'n 50 yn Sandfields ym mis Mehefin 2019 a hwyluswyd gan Cyfuno. Daeth dros 500 o breswylwyr ynghyd yn y parti hwn i ddathlu treftadaeth ac amrywiaeth a chefnogwyd sefydliadau lleol i weithio gyda'i gilydd.
- Mae rhaglen waith barhaus **Canolfan Dylan Thomas** wedi'i chydabod fel **arfer da** yng nghyd-destun y Dinasoedd Peilot. Wrth fynd yn ôl i'r tro cyntaf y cydweithiodd â Grwp Cefnogi Ceiswyr Lloches Abertawe yn 1999, mae'r ganolfan wedi bod yn lle pwysig ar gyfer darllen ac ysgrifennu rhyngddiwylliannol. Cyhoeddwyd sawl antholeg o ysgrifennu newydd dros y blynyddoedd ac, yn 2017, dechreuodd y ganolfan gydweithio â'r ysgrifennwr o Cameroon, Eric Ngalle Charles, a

ABERTAW E FEL DINAS BEILOT

ddatblygodd gydberthynas yn syth ag ysgrifenywyr lleol a oedd yn geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid, a bellach mae ei ddsbarthiadau wedi dod yn nodwedd reolaidd a phoblogaidd.

- Am 12 wythnos i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r lleoliadau hyn mewn safleoedd treftadaeth, a gellir gweithio o bell i ennill cymhwyster fel myfyriwr cofrestredig. Mae Cyngor Abertawe wedi creu lleoliad 30 awr am flwyddyn yn Amgueddfa Abertawe ac Oriel Gelf Glynn Vivian, ac mae'n ystyried hyn yn gyfle gwych i ennyn diddordeb person ifanc o grwp nad yw'n draddodiadol yn cael ei gynrychioli'n ddigonol yn ei weithlu.
- Mae'r **Tîm Chwaraeon ac Iechyd** wedi nodi pedwar maes allweddol o gyfranogiad isel: mewn meysydd tlodi; ymysg poblogaethau BAME, pobl anabl a menywod a merched. Mewn ymateb i hyn, mae wedi sefydlu fforymau gwaith yn y tri chategori olaf ac mae'n gweithio'n agos gyda sefydliadau cymunedol a lleoliadau addysgol a chyda'r trydydd sector yn y cyntaf. Mae gan bob fforwm gylch gorchwyl sy'n cwmpasu eu meysydd gwaith gan gynnwys ymgynghoriad, adolygu rhaglenni, monitro a gwerthuso. Mae aelodaeth y fforwm yn hyblyg, a gwneir ymdrechion i aelodau gynrychioli pob maes targed o ran oed, rhyw, cymuned, addysg a diwydiant. Mae'r fforymau'n darparu rhyngwyneb hanfodol rhwng staff y cyngor a'r cyhoedd, gan wella'r dylanwad y gall pobl â nodweddion gwarchoddedig ei gael ar benderfyniadau rheolwyr a'r modd y dylunnir gwasanaethau. Ym mhob fforwm, mae Chwaraeon ac Iechyd yn annog cynrychiolaeth arweiniol gan grwpiau a dargedir ac yn cefnogi hyn drwy hyfforddiant a chefnogaeth gwirfoddolwyr. Mewn partneriaeth â'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig a Chwaraeon Anabled Cymru, mae'r Tîm Chwaraeon ac Iechyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth yn uniongyrchol yn y meysydd cyfranogiad BAME a chynhwysiad anabled i grwpiau cymunedol, cyrff llywodraethu chwaraeon a chlybiau chwaraeon lleol, yn ogystal ag i aelodau staff sefydliadau partner megis gweithrediadau cyfleusterau. Ceir swyddogion arweiniol yn y tîm yn y meysydd cynhwysiad a nodwyd a fydd yn cynorthwyo aelodau'r tîm i ddatblygu cynlluniau cwbl gynhwysol.
- Fodd bynnag, rhan fwyaf uchelgeisiol y gwaith fu'r cynllun i **ddatblygu Canolfan Ddiwylliannol a Digidol yn Theatr y Grand Abertawe**. Drwy weithio gyda 15 o sefydliadau lleiafrifoedd ethnig yn y ddinas, bydd y bartneriaeth, dan gyd-arweiniad Cyngor Abertawe a Chyngor Hil Cymru yn troi lleoedd na chânt eu defnyddio'n ddigonol yn swyddfeydd ac yn fannau gwaith, yn creu ardal ar gyfer gweithgareddau dysgu digidol ac yn datblygu theatr y stiwdio ar gyfer digwyddiadau diwylliannol. Rhoddwyd cyllid sylweddol eisoes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith addasu



ABERTAWWE FEL DINAS BEILOT

ond bydd yn cymryd sawl blwyddyn i gwblhau'r elfen fwyaf arloesol a heriol sef creu rhaglen artistig a chynllun creu incwm a fydd yn amrywiol ac yn gynhwysol ac ar yr un pryd yn gadarn ac yn hunangynhaliol yn ariannol. Yn ei gwmpas, prin iawn yw'r nodweddion tebyg sydd i'w cael ym Mhrydain neu mewn mannau eraill a bydd llawer yn arsylwi arno ac yn dysgu ganddo.

Pan adawodd Beatriz Garcia, cyflogwyd Phil Wood i orffen y rhaglen Dinasoedd Peilot dair blynedd. Ei ymagwedd ef oedd arwain Cyngor Abertawe tuag at fframwaith strategol ar gyfer y prosiectau a'r perthnasoedd hyn a oedd yn dechrau ffynnu. Cytunwyd y dylai Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Abertawe roi cynnig ar rywbeth newydd drwy ddweud wrth ddinasyddion Abertawe a'r rheini sy'n ymweld â'r ddinas y bydd yn ymrwymo i adlewyrchu eu hamrywiaeth yn well ym mhob peth a wnaiff. Fe'i galwyd yn Addewid Amrywiaeth Abertawe.



TUAG AT YR ADDEWID AMRYWIAETH

Mae'r ddinas wedi cymryd y cysyniad ehangach o amrywiaeth i gynnwys yr holl bobl â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, h.y. yn perthyn i oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a thueddfryd rhywiol - yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a'r rheini sy'n byw dan anfantais economaidd. Mae hefyd wedi cymryd cysyniad cyffredinol diwylliant fel bod yr addewid yn cwmpasu gwaith y Tîm Digwyddiadau Arbennig, Chwaraeon ac Iechyd, Twristiaeth a Marchnata, Amgueddfa Abertawe, Oriel Gelf Glynn Vivian, Theatr y Grand Abertawe, Canolfan Dylan Thomas, Prosiect Cyfuno, partneriaethau diwylliannol a llyfrgelloedd Abertawe.

Mae'r addewid yn seiliedig ar werthoedd, ac yn taeru bod gan bob person hawl gyfartal i elwa o ddiwylliant, a mynegi ei hun drwyddo, a bod yn rhaid i Gyngor Abertawe fod yn rhagweithiol wrth hwyluso hyn. Mae hefyd yn ymarfer synhwyrol, sy'n ymateb i rai heriau gwirioneddol y mae'r Gwasanaethau Diwylliannol yn eu hwynebu. Sef bod cynulleidfaoedd traddodiadol ar gyfer lleoliadau a gwasanaethau Cyngor Abertawe yn newid ac mae'r niferoedd yn lleihau. Os yw'r gwasanaeth i aros yn ddichonadwy ac yn berthnasol mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol, yna rhaid iddo ddenu a chadw cynulleidfaoedd newydd - o sylfaen boblogaeth llawer mwy amrywiol.

Mae fformat yr addewid yn un ymarferol iawn. Y nod yw herio'r gwasanaeth drwy ofyn cwestiynau newydd a cheisio datrysiaidau newydd drwy ffurfio perthnasoedd newydd sy'n aml y tu hwnt i'w gylch gwaith arferol. Fodd bynnag, nid yw'n dechrau o gynfas gwag; rhaid cydnabod bod eisoes enghreifftiau o arfer da yn y gwasanaeth y dylid eu mabwysiadu'n ehangach a'u hehangu. Mae'r addewid yn gosod rhai safonau ansawdd gofynnol na ddylai'r gwasanaeth ddisgyn oddi tanynt - a gwahoddir y cyhoedd i ddal Cyngor Abertawe i gyfrif ar hyn. Mae e' hefyd yn gosod rhai targedau dyheadol ar gyfer sut y dylai'r gwasanaeth wella dros y blynyddoedd i ddod ac awgrymiadau ynghylch sut y gellir mesur a gwerthuso hyn. Defnyddir y fethodoleg hon ar draws pedwar llinyn gwaith:

- **Adrodd, Gwranddo a Rhannu - Perthnasoedd, Cyfathrebu a Chyfranogiad.** Sut byddwn yn cysylltu â phobl, meithrin perthnasoedd a chynnwys mwy o bobl mewn deialog ynghylch cynnig diwylliant a chwaraeon y ddinas.
- **Rhoi Syniadau ar Waith - Cynlluniau, Prosiectau a Rhaglenni** Sut byddwn yn sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau yn ein lleoliadau yn adlewyrchu profiadau pawb drwy ddefnyddio cronfa ehangach o bobl, syniadau ac ysbrydoliaeth.
- **Gwneud yn Fawr Ohonom Ni - Cynulleidfa, Rhoi Tocynnau, Croesawu a Mynediad** Sut byddwn yn ei gwneud hi'n haws ac yn ddeniadol i fwy o bobl ddefnyddio'n gwasanaethau drwy geisio deall yr hyn y maent am ei gael, a bod yn gallach wrth ddarparu hyn.



TOWARDS THE DIVERSITY PLEDGE

- **Y Tu ôl i'r Llenni - Diwylliant Sefydliadol, Llywodraethu, Recriwtio a Chynrychiolaeth** Sut byddwn yn sicrhau y bydd ein sefydliadau diwylliannol a chwaraeon, o'r pen i'r gwaelod, yn edrych, yn meddwl ac yn gweithredu'n debycach i'n poblogaeth amrywiol, ac yn fwy cynrychioliadol ohoni.

Y canlyniad yw dogfen strategol y gall staff a'r cyhoedd gael gafael arni'n hawdd i ddeall yn rhwydd yr hyn yw eu cyfrifoldebau a'u hawliau.

Er mwyn cryfhau'r ymrwymiad, mae'r addewid yn cyflwyno dulliau y gellir eu defnyddio i sicrhau bod yn gwasanaeth yn atebol am ei gamau gweithredu. Yn gyntaf, mae darpariaeth ar gyfer ffurfio Panel Addewid sy'n cynnwys pobl annibynnol sy'n deall ac yn profi anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth. Rôl y panel yw adolygu cynnydd ar nodau'r addewid, cynnig arweiniad, gwneud sylwadau ar neilltuo blaenoriaethau a dyrannu adnoddau a chyfleu neges yr addewid i'r gymuned ehangach.

Yn ail, awgrymir bod Cynhadledd Addewid yn cael ei chynnal yn flynyddol lle bydd cymunedau ehangach o bobl â nodweddion gwarchoddedig yn dod ynghyd i adolygu ac adfywio'r addewid. Dylid gwahodd sefydliadau partner i'r gynhadledd a gofyn iddynt wneud eu haddewidion eu hunain.

Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod, er mai ef yw prif ddarparwr isadeiledd a gwasanaethau diwylliannol yn y ddinas, ei fod yn rhan o dapestri cyfoethog o hyrwyddwyr eraill. Y nod yw, maes o law, y bydd yr holl brif gyfranogwyr yn y sectorau cyhoeddus, cyrff anllywodraethol a phreifat hefyd yn ymrwymo i'r addewid ac yn cytuno i lynu wrtho ac ychwanegu ato.

I gloi, gellir gweld bod Abertawe wedi cadw at ysbryd y Dinasoedd Peilot, drwy gydnabod ei ddiffygion mewn modd gonest ac ymateb yn gadarn iddynt. Mae hi wedi gosod rhai heriau uchelgeisiol a difrifol ar ei chyfer ei hun ac wedi gwahodd y cyhoedd i graffu ar ei hymdrechion i fynd i'r afael â hwy. Mae'n gwneud hyn ar un o'r adegau mwyaf anodd yn hanes diweddar Cyngor Abertawe, gydag effeithiau degawd o gyni ariannol ac amhariad Brexit yn creu niwed. Ond daeth i'r casgliad na fyddai hunanfodlonrwydd 'busnes fel arfer', nac ymarfer amddiffynnol 'amddiffyn a goroesi', yn dderbyniol. Dim ond drwy ailarfarnu yr hyn y mae'n ei wneud, pam ac i bwy y gall barhau i fod yn berthnasol ac yn ddichonadwy. Gall Dinasoedd Peilot eraill ddysgu llawer wrth sylwi ar gynnydd Abertawe.



CYSWLLT

Am ragor o wybodaeth am yr ymarfer hwn, cysylltwch â'r canlynol:



Cyngor Dinas Abertawe

Chris Mellor, Rheolwr Strategaeth y Celfyddydau, Diwylliant a'r Economi
Greadigol

E-bost: Christopher.Mellor@swansea.gov.uk

Gwefan: www.abertawe.gov.uk



Committee on Culture of United Cities and Local Governments (UCLG)

Ebost: info@agenda21culture.net

Gwefan: www.agenda21culture.net





SWANSEA
Pilot City • culture 21
EUROPE

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

